

Mwy o arian yn eich poced

Sut i hawlio'r budd-daliadau iawn
yn ddiweddarach yn eich oes

Materion ariannol



Cynnwys

Beth yw diben y canllaw hwn?	1
Sut y gall Age Cymru helpu	2
Cipolwg ar fudd-daliadau	4
Pensiwn y Wladwriaeth: rydych yn ei haeddu gwnewch yn siŵr eich bod yn ei hawlio	6
Credyd Pensiwn: mae'n ychwanegu at eich incwm wythnosol	8
Help gyda'r Dreth Gyngor	10
Help gyda chostau tŷ	12
Help gyda chostau gwresogi: cartref cynhesach ar gyfer y gaeaf	14
Help gyda chostau brys neu gostau unigol	16
Help gyda chostau iechyd	18
Lwfans Gweini: arian ar gyfer eich anghenion gofal	20
Gwneud cais am Lwfans Gweini	22
Anghenion gofal cyffredin i'w cynnwys	23
Beth os bydd fy nghais am Lwfans Gweini yn cael ei wrthod?	24
Lwfans Gofalwr: arian ychwanegol i helpu gyda gofal	25
Newidiadau i fudd-daliadau yn y dyfodol	26
Chwalu'r myth	28
Sefydliadau defnyddiol	30

Mae Age Cymru yn rhan o rwydwaith Age UK, sydd hefyd yn cynnwys Age NI ac Age Scotland. Mae partneriaid Age Cymru lleol ledled Cymru hefyd.

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi cael ei pharatoi gan Age Cymru ac Age UK, ac mae'n cynnwys cyngor cyffredinol yn unig, y gobeithiwn y bydd o ddefnydd i chi. Ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y daflen hon fel cyngor penodol ac ni ddylid dibynnu arni fel sail ar gyfer unrhyw benderfyniad neu weithred. Nid yw Age Cymru, Age UK, nac unrhyw un o'i is-gwmnïau, nac elusennau yn derbyn unrhyw atebolrwydd sy'n codi yn sgil ei defnydd. Ein nod yw sicrhau bod y wybodaeth mor gyfredol a chywir â phosibl, ond byddwch yn ymwybodol bod rhai meysydd yn newid o dro i dro.

Beth yw diben y canllaw hwn?

Bob blwyddyn, amcangyfrifir bod gwerth hyd at £.3.5 biliwn o fudd-daliadau'r wladwriaeth heb gael eu hawlio gan bobl hŷn yn y DU. Allech chi fod yn un o'r bobl sy'n colli allan?

Os ydych chi'n 60 oed neu'n hŷn, gall fod gennych hawl i fudd-daliadau nad ydych wedi gallu eu hawlio o'r blaen. Gall y rhain eich helpu chi i gadw eich annibyniaeth a gwella eich safon byw trwy helpu gyda chostau tŷ, anghenion gofal neu gostau byw dydd i ddydd cyffredinol. Felly, mae'n werth darllen y canllaw hwn i weld a ydych yn hawlio popeth sy'n ddyledus i chi.

Mae'r holl ffigurau y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn yn berthnasol rhwng Ebrill 2019 ac Ebrill 2020.

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol ledled Cymru. Mae yna fersiynau eraill ar gael sy'n berthnasol i Loegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Allwedd

**Beth
nesaf?**

Mae'r symbol hwn yn dangos â phwy y dylech gysylltu ar gyfer y camau nesaf sydd angen i chi eu cymryd.

Sut y gall Age Cymru helpu

Ddim yn meddwl bod gennych hawl i unrhyw fudd-daliadau? Efallai y cewch eich synnu.

Hyd yn oed os oes gennych eich cartref eich hun neu gynilion – neu os ydych eisoes yn hawlio rhai budd-daliadau – efallai fod gennych hawl i rai eraill. Felly, cyn darllen y canllaw hwn, beth am edrych beth sydd gennych hawl iddo?

Mae cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein Age Cymru yn rhad ac am ddim, ac yn gyfrinachol – a gall eich helpu i gael gwybod beth y gallai fod gennych hawl iddo.



Dim ond hyn fydd angen i chi ei wybod:

- faint o incwm rydych chi'n ei dderbyn o unrhyw fudd-daliadau, gwaith, pensiynau preifat neu ffynonellau eraill
- eich rhent neu gostau cartref a'ch band Treth Gyngor
- faint o gynilion sydd gennych

Dim ond rhyw 10 munud y dylai gymryd i'w gwblhau, ac fe gewch weld faint y gallech fod â hawl iddo a sut i'w hawlio.

Ewch i www.agecymru.org.uk/letstalkmoney neu, os nad oes gennych fynediad at y rhynggrwyd, gofynnwch i ffrind neu berthynas eich helpu. Fel arall, gallwch ffonio Llinell Gyngor genedlaethol Age Cymru, neu fynd draw i'ch sefydliad Age Cymru lleol i gael cyngor ar fudd-daliadau.

Cyngor Age Cymru: 08000 223 444

Gall Cyngor Age Cymru roi manylion cysylltu eich Age Cymru lleol ichi, neu gallwch fynd i:

www.agecymru.org.uk/local

Gall eich Age Cymru lleol:

- esbonio pob budd-dal a chyfrifo beth y gall fod gennych hawl i'w dderbyn - gallai fod yn gyfuniad o fudd-daliadau neu hyd yn oed yn daliad ôl-ddyddiedig
- eich helpu i wneud hawliadau a llenwi ffurflenni – efallai y byddan nhw hyd yn oed yn gallu dod draw i'ch gweld yn eich cartref
- bod yma i wrando a chynnig cyngor cyffredinol ar eich sefyllfa ariannol.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch arian, neu ynghylch talu eich biliau, mae'n syniad da cysylltu cyn gynted â phosib - cyn i'ch pryderon ddechrau effeithio ar eich cwsg a'ch iechyd.



***Ffoniwch Cyngor
Age Cymru ar
08000 223 444***

Cipolwg ar fudd-daliadau

Dyma drosolwg byr o'r budd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w derbyn, faint y gallech ei dderbyn, a ble yn y canllaw hwn y cewch fwy o wybodaeth. Mae tri categori: eich pensiwn, eich cartref a'ch lles.

1. Eich pensiwn

Pensiwn y Wladwriaeth (gweler tudalennau 6–7)

Faint? Hyd at £168.60 yr wythnos, yn dibynnu faint o gyfraniadau Yswiriant Gwladol wnaethoch tra'r oeddech yn gweithio.

Credyd Pensiwn – Credyd Gwarant (gweler tudalennau 8–9)

Faint? Mae'n ychwanegu at eich incwm i roi o leiaf £167.25 yr wythnos i bobl sengl a £255.25 i gyplau.

Credyd Pensiwn – Credyd Cynilion (gweler tudalennau 8–9)

Faint? Hyd at £13.72 yr wythnos i bobl sengl neu £15.35 yr wythnos i gyplau.

2. Eich cartref

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (gweler tudalennau 10–11)

Faint? Mae'r swm yn amrywio, ond gallai fod yn ddigon i dalu eich Treth Gyngor yn llawn.

Budd-dal Tai (gweler tudalennau 12–13)

Faint? Mae'r swm yn amrywio, ond gallai fod yn ddigon i dalu eich rhent yn llawn.

Taliad Tanwydd Gaeaf (gweler tudalen 14)

Faint? Un taliad blynyddol, fel arfer £200 os ydych yn iau nag 80 oed, a £300 os ydych yn 80 oed neu hŷn.

Taliad Tywydd Oer (gweler tudalen 15)

Faint? £25 yr wythnos pan fo'r tywydd yn oer iawn.

Disgownt Cartref Cynnes (gweler tudalen 15)

Faint? Disgownt unigol ar eich bil ynni gan eich cyflenwr.

3. Eich lles

Lwfans Gweini (gweler tudalennau 20–24)

Faint? £58.70 yr wythnos os oes angen help arnoch yn y dydd neu yn y nos. £87.65 os oes angen help arnoch yn y dydd ac yn y nos.

Lwfans Gofalwr (gweler tudalen 25)

Faint? £66.15 yr wythnos os ydych yn gofalu am rywun.

Help gyda chostau iechyd (gweler tudalennau 18–19)

Faint? Mae'n amrywio. Help gyda chostau triniaeth ddeintyddol, sbectol neu lensys cyffwrdd, a chostau GIG eraill.

Help gyda chostau brys neu gostau unigol (gweler tudalennau 16–17)

Faint? Mae amrywiaeth o help ar gael, yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Pensiwn y Wladwriaeth: rydych yn ei haeddu – gwnewch yn siwr eich bod yn ei hawlio

Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn daliad rheolaidd gan y llywodraeth ac mae'n seiliedig ar eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Gallwch ei gael pan fyddwch yn cyrraedd oed pensiwn.

Ers mis Tachwedd 2018, 65 oed yw oed Pensiwn y Wladwriaeth i ddynion a merched. Yn ogystal, mae bellach yn cynyddu eto yn raddol - er enghraifft, ym mis Ebrill 2019 bydd yn 65 a 2-3 mis a bydd wedi cynyddu i 66 erbyn mis Hydref 2020 (mae'r cynnydd parhaus hwn yn oed Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar ddynion a merched yr un fath). Gallwch wirio eich oedran Pensiwn trwy ffonio Cyngor Age Cymru neu ddefnyddio'r gyfrifiannell ar www.gov.uk/state-pension-age

Mae rheolau gwahanol ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth, yn ddibynnol ar bryd y byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Bydd pobl sydd wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar neu cyn Ebrill 2016 yn dod o dan y rheolau newydd ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth:

- O dan y system newydd, bydd swm wythnosol llawn yn cael ei roi i bobl sydd ag o leiaf 35 mlynedd o gyfraniadau neu gredydau Yswiriant Gwladol (YG). Bydd yn werth £168.60 yr wythnos, ond gallwch gael llai na hyn os nad oes digon o gyfraniadau/gredydau YG gennych, fel os ydych wedi contractio allan o gynllun pensiwn y Wladwriaeth ychwanegol.

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016:

- Byddwch yn parhau i gael Pensiwn y Wladwriaeth o dan yr hen system. Mi fydd rheolau yr hen system yn berthnasol hyd yn oed os ydych yn gohirio hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth tan ar ôl 6 Ebrill 2016. O dan yr hen reolau, mae Pensiwn sylfaenol llawn y Wladwriaeth, yn talu £129.20 yr wythnos os oes gennych o leiaf 30 mlynedd o gyfraniadau YG. Yn ogystal â Phensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, o dan yr hen system efallai y byddwch yn gallu cael Pensiwn Ychwanegol y Wladwriaeth (drwy Gynllun Pensiwn Enillion y Wladwriaeth (SERPS), neu'r Ail Pensiwn y Wladwriaeth) neu Fudd-dal Ymddeol Graddedig.

Fel arfer, mae'r rhain yn seiliedig ar y swm rydych wedi'i ennill (ac felly'r swm a dalwyd gennych drwy gyfraniadau YG).

A allaf ei hawlio?

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar/ar ôl 6 Ebrill 2016:

- Rhaid eich bod wedi cael eich credydu gyda chyfraniadau YG drwy gydol eich blynyddoedd yn gweithio. O dan y system newydd byddwch angen o leiaf ddeng mlynedd o gyfraniadau. Mae'r swm y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar nifer y blynyddoedd o gyfraniadau.

Os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016:

- O dan yr hen reolau efallai y byddwch yn gallu ychwanegu at eich Pensiwn Wladwriaeth yn seiliedig ar gyfraniadau eich gŵr, gwraig neu bartner sifil (os ydynt hefyd o oedran pensiwn). Mae hyn yn berthnasol os yr ydych wedi ysgaru, eich partneriaeth sifil wedi chwalu neu eich priod neu bartner sifil wedi marw.

Sut ydw i'n hawlio Pensiwn y Wladwriaeth?

- Mae proses hawlio Pensiwn y Wladwriaeth yr un fath dan y system newydd a'r hen reolau. **Mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn â hawl i bensiwn , ond mae rhaid gwneud cais ar ei gyfer yr un fath.** Os nad ydych wedi cael llythyr oddi wrth y Gwasanaeth Pensiwn tri mis cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch a'r Gwasanaeth Pensiwn i holi ynghylch hyn (gweler tudalen 32).
- Nid oes rhaid ichi hawlio Pensiwn y Wladwriaeth yn syth. Gallwch ohirio ei hawlio - a chael pensiwn uwch pan fyddwch chi'n ei hawlio. Gallai effeithio ar rai budd-daliadau os byddwch chi'n gohirio. Ceisiwch gyngor os dyna yw'r sefyllfa.

Beth nesaf?

Am ragor o wybodaeth , gweler ein canllaw rhad ac am ddim State Pension (copi Cymraeg Pensiwn y Wladwriaeth ar gael ar gais). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cynhyrchu canllawiau am ddim yn ogystal â gwybodaeth ar-lein.

I gael fwy o wybodaeth am y system Pensiwn newydd y Wladwriaeth ewch i www.gov.uk/new-state-pension.

Am wybodaeth ar y system Pensiwn y Wladwriaeth cyn-2016 ewch i www.gov.uk/state-pension.

Credyd Pensiwn: mae'n ychwanegu at eich incwm wythnosol

Budd-dal cysylltiedig ag incwm yw hwn, i roi ychydig o arian ychwanegol ichi pan fyddwch wedi ymddeol. Mae dwy ran i'r Credyd Pensiwn – efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn un ohonynt neu'r ddau.

- Mae'r Credyd Gwarant yn ychwanegu at eich incwm wythnosol i isafswm lefel gwarantedig a bennir gan y Llywodraeth.
- Mae'r Credyd Cynilion yn arian ychwanegol y byddwch yn ei dderbyn os oes gennych ychydig o gynilion neu os yw'ch incwm yn uwch na Phensiwn y Wladwriaeth sylfaenol. Ni allwch hawlio Credyd Cynilion os cyrraeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2016.

Mae'n werth hawlio Credyd Pensiwn, hyd yn oed os mai swm bach yn unig y byddwch yn ei gael, gan y gall eich helpu i gymhwyso ar gyfer budd-daliadau eraill fel Budd-dal Tai neu Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Ffoniwch Cyngor Age Cymru i gael mwy o wybodaeth am sut mae Credyd Pensiwn yn gallu agor y drws i chi gael budd-daliadau eraill.

Hefyd, nid yw rhai mathau o incwm, fel Lwfans Gweini a rhai budd-daliadau eraill, yn cael eu hystyried wrth wirio a ydych yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, felly efallai fod gennych fwy o siawns o fod yn gymwys nag oeddech yn ei feddwl.

A allaf ei hawlio?

Credyd Gwarant

- Nid oes ffigwr uchafswm am gynilion i gael am Credyd Pensiwn, ond os oes gennych fwy na £10,000 mi fydd yn effeithio'r swm y byddwch yn gallu hawlio.
- Os ydych yn byw gyda phartner, un ohonoch yn unig all hawlio Credyd Pensiwn a byddwch yn cael eich asesu fel cwpwl.
- I fod yn gymwys, mae'n rhaid i chi a'ch partner fod wedi cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth – sy'n cynyddu o 65 oed i ddyddion a merched i 66 oed erbyn mis Hydref 2020. Gallwch wirio pryd

y byddwch yn cymhwyso trwy ffonio Cyngor Age Cymru neu'r Gwasanaeth Pensiwn (gweler tudalennau 30 a 32).

- Yn gyffredinol, gallech dderbyn Credyd Gwarant os yw'ch incwm wythnosol yn llai na £167.25 os ydych yn sengl neu £255.25 os ydych yn gwpwl. Gallai'r swm yma fod yn llawer uwch os oes gennych anabledd, eich bod yn ofalwr, neu eich bod yn berchen eich cartref a bod gennych daliadau gwasanaeth.

Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais

Os ydych yn berchen ar eich cartref eich hun ac yn dal i dalu morgais, efallai eich bod yn gymwys i gael benthyciad Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais fel rhan o Gredyd Pensiwn. Mae ein taflen ffeithiau am ddim ar Gredyd Pensiwn yn cynnwys mwy o wybodaeth.

Credyd Cynilion

- Yr isafswm oedran i gymhwyso ar gyfer Credyd Cynilion yw 65 oed.
- Cewch Gredyd Cynilion os oes gennych beth cynilion neu os yw'ch incwm wythnosol yn uwch na Phensiwn y Wladwriaeth sylfaenol.
- Ni allwch hawlio Credyd Cynilion os cyrhaeddoch oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2016. Os ydych yn rhan o gwpl a bod un ohonoch wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth cyn 6 Ebrill 2016, efallai allwch ei hawlio.

Sut ydw i'n ei hawlio?

Gallwch hawlio Credyd Pensiwn trwy ffonio'r Gwasanaeth Pensiwn (gweler tudalen 32). Byddant yn gofyn cwestiynau i chi dros y ffôn ac yn llenwi'r ffurflen ar eich rhan. Fel arall, gallech ofyn iddynt anfon ffurflen atoch i'w llenwi adref.

Am fwy o wybodaeth, mae gennym ganllaw a thaflen ffeithiau ar Gredyd Pensiwn. Mae'r daflen ffeithiau'n cynnig gwybodaeth fanylach.

Defnyddiwch ein cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein ar www.agecymru.org.uk/letstalkmoney i ddarganfod beth ydych yn gymwys i'w dderbyn.



Help gyda'r Dreth Gyngor

Efallai eich bod chi'n gymwys i gael help ar gyfer eich bil y Dreth Gyngor trwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor eich awdurdod lleol (yn gyffredinol, mae'r meini prawf cymhwyso yr un peth ledled Cymru).

Alla' i ei hawlio?

Gall y cymorth a dderbyniwch ddibynnu ar ffactorau fel:

- pa fudd-daliadau rydych yn eu derbyn
- eich oedran
- eich incwm
- eich cynilion
- gyda phwy rydych chi'n byw
- faint o'r Dreth Gyngor rydych yn ei thalu.

Efallai y byddwch yn cael mwy o help gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor os ydych yn derbyn budd-dal anabledd neu ofalwr.

Os ydych yn derbyn Credyd Gwarant, efallai bydd eich Treth Gyngor yn cael ei thalu'n llawn. Os nad ydych yn derbyn Credyd Gwarant, ond mae gennych incwm isel a llai nag £16,000 o gynilion, efallai y byddwch yn dal i gael ychydig o help.

Disgowntiau ac eithriadau

Efallai y gallwch wneud cais am ddisgownt neu eithriad, os yw eich eiddo'n wag - er enghraifft, os ydych chi wedi'i adael i fynd i'r ystyby neu gartref gofal. Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, gallwch gael gostyngiad o 25 y cant ar eich bil y Dreth Gyngor, ni waeth beth yw eich amgylchiadau ariannol. Dylai eiddo gael ei eithrio o'r Dreth Gyngor os yw'n rhandy i'r prif eiddo, cyn belled â bod yr unigolyn sy'n byw yn y rhandy yn berthynas dibynnol i bwy bynnag sy'n byw ym mhrif ran y tŷ (er enghraifft, gall fod yn gymwys pan mae

rhywun yn byw mewn rhandy nain). Os ydych yn dioddef o ddementia a'ch bod yn byw ar eich pen eich hun, mae'n bosib byddwch yn gymwys i gael eich eithrio rhag talu unrhyw Dreth Gyngor.

Gofynnwch i'ch cyngor lleol a yw'n cynnig unrhyw help arall, er enghraifft, os ydych yn ofalwr neu'n anabl, a bod eich cartref wedi cael ei addasu ar gyfer eich anghenion.

Sut ydw i'n ei hawlio?

Cysylltwch â'ch cyngor lleol i weld a allwch hawlio help ar gyfer eich bil y Dreth Gyngor. Os oes angen help arnoch gyda'ch cais, cysylltwch â'ch cangen Age Cymru leol (gweler tudalen 30).

Beth nesaf?

I gael mwy o wybodaeth, gweler taflen ffeithiau rhad ac am ddim Age Cymru, *Y Dreth Gyngor yng Nghymru: gwybodaeth am y dreth a help y gallech ei gael tuag at eich bil.*

Defnyddiwch ein cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein ar www.agecymru.org.uk/letstalkmoney i ddarganfod a oes gennych hawl i gymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.



Mae'n werth hawlio Credyd Pensiwn, hyd yn oed os swm bach yn unig y byddwch chi'n ei gael, gan ei fod yn gallu'ch helpu chi i gymhwyso am fudd-daliadau eraill, megis Budd-dal Tai neu Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Help gyda chostau tŷ

Budd-dal Tai

Mae Budd-dal Tai yn eich helpu i dalu eich rhent os ydych yn denant (os ydych yn berchen ar eich cartref, ni allwch hawlio Budd-dal Tai, ond mae'n bosib eich bod yn gymwys i gael benthyciad Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais - gweler yr adran Credyd Pensiwn uchod).

Alla i hawlio Budd-dal Tai?

Mae'r help y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar:

- eich incwm
- eich cynilion
- gyda phwy rydych chi'n byw
- faint o rent rydych yn ei dalu
- faint o ystafelloedd sydd yn eich cartref.

Efallai y byddwch yn derbyn mwy o Fudd-dal Tai os ydych yn cael budd-dal anabledd neu ofalwr.

- Os ydych yn derbyn rhan Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, efallai y bydd y Budd-dal Tai yn talu eich rhent yn llawn. Os nad ydych yn cael Credyd Gwarant, ond bod eich incwm yn isel a bod gennych lai nag £16,000 o gynilion, efallai y bydd dal modd i chi gael ychydig o help.
- Os oes rhywun yn byw gyda chi – er enghraifft, mab neu ferch sy'n oedolyn a disgwylir iddo/iddi gyfrannu at y rhent – fel arfer, bydd swm yn cael ei dynnu o'ch Budd-dal Tai. Mae'r swm hwn yn dibynnu ar eu hamgylchiadau.

Taliadau tai yn ôl disgrisiwn

Os ydych yn cael Budd-dal Tai ac yn dal i'w chael hi'n anodd talu eich rhent, gallwch wneud cais am daliad tai yn ôl disgrisiwn. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael ffurflen gais.

Sut ydwi i'n ei hawlio?

Yn gyntaf, bydd angen ichi wybod pwy i gysylltu â nhw i wneud hawliad:

- Os ydych wedi cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch wneud hawliadau am Fudd-dal Tai a Chredyd Pensiwn ar yr un pryd. Fel arall, cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael gwybod sut i wneud cais.
- Os nad ydych wedi cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth eto ac rydych eisiau help gyda'ch rhent, mae'n debygol y bydd rhaid ichi hawlio Credyd Cynhwysol (gweler tudalen 26), sydd ag elfen cost cartref.

Bydd y cyngor yn eich arwain drwy'r camau y mae angen ichi eu cymryd i wneud hawliad. Fel arall, holwch yn eich Age Cymru lleol i weld sut y gallan nhw helpu.

Beth nesaf?

I gael mwy o wybodaeth ar Fudd-dal Tai a thaliadau tai yn ôl disgrisiwn, gweler ein taflen ffeithiau rhad ac am ddim, *Budd-dal Tai*.

Defnyddiwch ein cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein ar www.agecymru.org.uk/letstalkmoney i ddarganfod a ydych yn gymwys i gael Budd-dal Tai a budd-daliadau eraill.



Help gyda chostau gwresogi: cartref cynhesach ar gyfer y gaeaf

Mae llawer ohonom yn poeni am brisiau tanwydd yn codi, ond trwy beidio â gwresogi ein cartrefi'n briodol, rydym yn amlygu ein hunain i glefydau sy'n gysylltiedig ag oerfel, megis trawiad ar y galon, strôc neu hypothermia hyd yn oed. Os cawsoch eich geni ar neu cyn 6 Tachwedd 1953 neu eich bod yn derbyn budd-daliadau penodol, gallwch gael arian ychwanegol i'ch helpu i gadw'n gynnes yn y gaeaf.

Taliad Tanwydd Gaeaf

Taliad blynyddol ar gyfer aelwydydd sy'n cynnwys rhywun a aned ar neu cyn 6 Tachwedd 1953:

- £200 os cawsoch eich geni ar ôl 24 Medi 1937
- £300 os cawsoch eich geni cyn 25 Medi 1937

Fel arfer, byddwch yn cael llai os ydych yn byw gyda phobl eraill sy'n gymwys hefyd - ond, rhyngoch, dylai adio i roi'r un swm.

Alla' i ei hawlio?

Bydd y mwyafrif o bobl a aned cyn 6 Tachwedd 1953 yn gymwys am y taliad yn 2019/20.

Sut ydw i'n ei hawlio?

Fel arfer byddwch yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf yn awtomatig os ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu Gredyd Pensiwn. Dylech gael llythyr i ddweud faint a pryd gewch y taliad.

Os nad ydych yn cael Pensiwn y Wladwriaeth neu Gredyd Pensiwn ond efallai eich bod yn gymwys, fe fydd angen i chi wneud cais.

I ofyn am eich taliad neu i wneud cais, ffoniwch linell gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf ar 0800 731 0160, neu fel arall gallwch

lawrlwytho ffurflen gais o www.gov.uk/winter-fuel-payment/how-to-claim.

Dim ond unwaith yn unig y bydd angen i chi hawlio. Ar ôl hyn, dylech ei dderbyn fel mater o drefn bob blwyddyn, os na fydd eich amgylchiadau'n newid.

Taliad Tywydd Oer

Mae Taliadau Tywydd Oer yn cael eu talu i bobl cymwys pan mae'r tywydd yn oer iawn. Gallwch gael £25 ychwanegol yr wythnos pan fydd y tymheredd cyfartalog yn eich ardal wedi bod, neu y disgwylir iddo fod, yn 0°C (32°F) neu'n is am saith niwrnod rhwng mis Tachwedd a Mawrth.

Alla' i ei hawlio?

Dylech dderbyn Taliad Tywydd Oer fel mater o drefn os ydych yn derbyn Credyd Pensiwn neu fudd-daliadau penodol eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn os ydych o'r farn y dylech fod wedi derbyn Taliad Tywydd Oer, ond eich bod chi heb ei dderbyn (gweler tudalen 32).

Disgownt Cartref Cynnes

Os ydych yn derbyn Credyd Pensiwn neu fod eich incwm yn isel, efallai bod gennych hawl i gael Disgownt Cartref Cynnes. Bydd yr arian hwn yn cael ei dynnu oddi ar eich bil trydan gan eich cyflenwr ynni. Mae'n ddisgownt unigol a roddir rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Gwiriwch gyda'ch cyflenwr ynni neu gofynnwch i asiantaeth gynghori, fel Age Cymru. Darganfyddwch fwy ar www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme

**Beth
nesaf?**

Gweler canllaw rhad ac am ddim Age Cymru, *Yn gynnes dros y gaeaf*, i gael mwy o awgrymiadau ynghylch cadw'n gynnes mewn tywydd oer. Hefyd, gweler ein taflen ffeithiau rhad ac am ddim, *Help gyda chostau gwresogi yng Nghymru*. Galwch heibio eich cangen Age Cymru leol i gael mwy o help a chyngor. I ddod o hyd i'ch Age Cymru agosaf, ffoniwch **08000 223 444** neu ewch i www.agecymru.org.uk/spreadthewarmth, i gael mwy o wybodaeth am gadw'n iach y gaeaf hwn.

Help gyda chostau brys neu gostau unigol

Os ydych yn wynebu cost nad ydych yn gallu ei thalu oherwydd eich bod yn byw ar incwm isel, neu oherwydd eich bod chi'n byw heb unrhyw arian o gwbl am ryw reswm, efallai y gallwch gael help.

- Gall **Taliadau Angladd** helpu os ydych yn gyfrifol am dalu am angladd. Byddant yn helpu gyda chostau claddu neu amlosgi a hyd at £700 ar gyfer costau eraill, fel ffioedd y trefnydd angladdau. I ddarganfod mwy, gweler ein canllaw rhad ac am ddim, *Pan fydd rhywun yn marw*, a thaflen ffeithiau rhad ac am ddim, *Cynllunio ar gyfer angladd*.
- Gall **Benthyciad Cyllidebu** rhwng £100 a £464 fod ar gael, os ydych yn derbyn Credyd Pensiwn, a bod angen i chi dalu am eitem hanfodol. Bydd angen i chi ei ad-dalu o'ch budd-daliadau wythnosol.
- Gall **Blaenswm Tymor Byr** eich helpu chi yn ystod y cyfnod rhwng gwneud cais newydd am fudd-dal a derbyn y budd-dal. Fel arfer, bydd angen i chi ad-dalu'r arian o fewn tri mis, o'ch budd-daliadau wythnosol.
- Gall **help o'r Gronfa Cymorth Dewisol** fod ar gael, os ydych wedi dioddef argyfwng neu drychineb, fel tân neu lifogydd, neu fod gennych gostau hanfodol eraill i'w talu, fel dodrefn, cysylltiad tanwydd, costau symud a chostau teithio brys. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn gynllun cenedlaethol yng Nghymru. Os byddwch yn derbyn help, bydd ar ffurf grant na fydd yn ad-daladwy, er efallai na fyddwch yn ei dderbyn ar ffurf arian parod - er enghraifft, efallai y byddwch yn cael cerdyn rhagdal.

Mwy o wybodaeth ynghylch y meini prawf cymhwyso am help gyda chostau brys neu gostau unigol

- Fel arfer, bydd angen i chi fod yn derbyn budd-daliadau penodol, fel Credyd Pensiwn neu Fudd-dal Tai. I fod yn gymwys ar gyfer Blaenswm Tymor Byr, bydd angen i chi ddangos eich bod chi mewn angen ariannol.

- Os oes gennych dros £2,000 o gynilion, bydd yn effeithio ar eich cymhwyster i dderbyn Benthyciad Cyllidebu. Nid oes unrhyw derfynau cynilion ar gyfer Taliadau Angladd.
- Mae dwy ran i'r Gronfa Cymorth Dewisol:
 - Mae **Taliadau Cymorth Unigol** wedi'u hanelu at alluogi pobl i barhau i fyw gartref yn annibynnol, neu os oes angen help i leddfu pwysau eithriadol neu frys y mae unigolyn a/neu ei deulu yn ei ddioddef - er enghraifft, anghenion cynyddol yn sgil salwch cronig, anabledd neu ddamwain. Gallech fod yn gymwys i dderbyn help os ydych yn cael budd-dal lles cysylltiedig ag incwm, fel Credyd Pensiwn neu Gymhorthdal Incwm. Fodd bynnag, bydd unrhyw swm ddyfarniad Taliad Cymorth Unigol gallwch dderbyn yn cael ei leihau, 'ar sail punt am bunt', ar gyfer unrhyw gynilion/cyfalaf sydd gennych chi neu eich partner.
 - Mae **Taliadau Cymorth Brys** yn darparu help mewn argyfwng neu drychineb, pan mae bygythiad uniongyrchol i iechyd neu les (er enghraifft, yn sgil tân neu lifogydd yn eich cartref). Mae Taliadau Cymorth Brys ar gael ar gyfer costau hanfodol yn unig. Hefyd, byddai angen i chi ddangos yn eich cais nad oes gennych chi fynediad at unrhyw adnoddau eraill a fyddai'n eich helpu chi drwy'r argyfwng.

Sut ydw i'n ei hawlio?

I wneud cais am Taliadau Angladd, Benthyciadau Cyllidebu a Blaendaliadau Tymor Byr, cysylltwch â'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol.

Mae manylion cysylltu y Gronfa Cymorth Dewisol i'w cael ar dudalen 31.

Beth nesaf?

I gael mwy o wybodaeth, gweler ein taflen ffeithiau rhad ac am ddim *Y Gronfa Gymdeithasol, Blaendaliadau Budd-dal a Darpariaeth Lles Lleol* neu cysylltwch â Chyngor Age Cymru ar **08000 223 444**.

Help gyda chostau iechyd

Mae presgripsiynau'r GIG yn rhad ac am ddim i bobl o bob oed yng Nghymru.

Mae gan unrhyw un dros 60 oed hawl i brawf llygaid y GIG rhad ac am ddim bob dwy flynedd hefyd (neu fel yr argymhellir gan eu hoptegydd), a gwiriad deintyddol y GIG rhad ac am ddim hefyd.

Os ydych yn cael Credyd Gwarant Credyd Pensiwn

Os ydych yn derbyn rhan Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, byddwch hefyd yn cymhwyso fel mater o drefn i gael help tuag at gostau iechyd eraill y GIG:

- triniaeth ddeintyddol y GIG yn rhad ac am ddim
- taleb tuag at gost sbectol neu lensys cyffwrdd
- help gyda chostau teithio angenrheidiol i dderbyn triniaeth y GIG tra o dan ofal ymgynghorydd, neu yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ddeintydd.
- wigiau a chymhorthion ffabrig y GIG yn rhad ac am ddim.

Cynllun Incwm Isel y GIG

Os nad ydych yn derbyn rhan Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, ond bod eich incwm yn isel a bod gennych llai nag £16,000 o gynilion (naill ai ar eich pen eich hun neu ar y cyd os ydych yn gwpwl), efallai y gallwch gael ychydig o help ar gyfer y costau uchod trwy Gynllun Incwm Isel y GIG. Os ydych yn byw mewn cartref gofal yn barhaol, y terfyn cynilion yw £24,000.¹

¹ Yn y gorffennol, roedd terfyn cyfalaf Cynllun Incwm Isel GIG, i bobl a oedd yn byw mewn cartref gofal yn barhaol, yn dueddol o gyfateb i'r terfyn cyfalaf i gael cymorth gan awdurdodau lleol gyda ffioedd cartref gofal. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, tra bo'r terfyn cyfalaf mewn perthynas â'r prawf modd cartref gofal wedi codi'n eithaf sylweddol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi fod y terfyn yn parhau'n £24K ar gyfer Cynllun Incwm Isel GIG.

I ddarganfod mwy, ffoniwch Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar 0300 330 1343 neu ewch i www.healthcosts.wales.nhs.uk/hafan

Sut ydw i'n ei hawlio?

Os ydych yn derbyn rhan Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn, bydd gennych hawl i gael help ar gyfer costau iechyd y GIG fel mater o drefn (dangoswch eich hysbysiad dyfarnu fel prawf o'ch hawl).

Os nad ydych yn derbyn Credyd Gwarant ond eich bod chi'n bodloni'r meini prawf eraill, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais. Gallwch gael un o'r rhain trwy ffonio llinell archebu'r GIG ar 0345 603 1108 neu casglwch un oddi wrth ddeintydd, optegydd neu ysbyty'r GIG.

Beth nesaf?

Gweler ein taflen ffeithiau rhad ac am ddim *Help gyda chostau iechyd yng Nghymru*. Gofynnwch i'ch eich cangen Age Cymru leol i gael mwy o wybodaeth neu help i lenwi'r ffurflen.



Lwfans Gweini: arian ar gyfer eich anghenion gofal

Os oes gennych chi broblem iechyd sy'n golygu bod angen help arnoch ar gyfer gofal personol, efallai y gallwch hawlio Lwfans Gweini, a chael arian ychwanegol bob wythnos i'ch helpu chi. Nid yw'r Lwfans Gweini yn dibynnu ar brawf modd, felly gallwch ei hawlio ni waeth beth yw eich incwm a'ch cynilion.

Bydd y gyfradd a dderbyniwch yn dibynnu ar yr help sydd ei angen arnoch. Nid oes bwys a ydych yn cael yr help mewn gwirionedd; y peth pwysig yw bod ei angen arnoch. Gallwch ei wario ar ofal neu ofalwr, neu mewn unrhyw ffordd arall y dymunwch.

Mae dwy gyfradd wythnosol:

- **£58.70** (cyfradd isel) os oes angen help arnoch yn y dydd **neu** yn y nos
- **£87.65** (cyfradd uchel) os oes angen help arnoch yn y dydd **ac** yn y nos

*Nid oes bwys
a ydych yn cael
yr help mewn
gwirionedd; y peth
pwysig yw bod ei
angen arnoch.*

Alla' i ei hawlio?

- Rhaid eich bod chi'n 65 oed neu'n hŷn (Os ydych o dan 65 oed, efallai y byddwch yn medru hawlio Taliad Annibyniaeth Bersonol).
- Rhaid bod gennych chi salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol.
- Rhaid bod angen help arnoch ar gyfer gofal personol, fel gwisgo neu ymolchi, neu gadw llygad arnoch i'ch cadw'n ddiogel, yn ystod y dydd neu'r nos.
- Rhaid bod gennych gyflwr neu angen iechyd tymor hir, a'ch bod chi wedi angen help am chwe mis, cyn i chi allu derbyn y Lwfans Gweini. Fodd bynnag, os ydych yn derfynol wael, gallwch hawlio ar unwaith.

Os ydych eisoes yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol, byddwch yn parhau i dderbyn y taliadau hyn ar ôl eich pen-blwydd yn 65 oed. Os gofynnwyd i chi hawlio Lwfans Gweini yn lle eich budd-dal presennol, cysylltwch â'ch cangen Age Cymru leol.

Sut ydw i'n ei hawlio?

Gallwch gael ffurflen gais trwy ffonio llinell gymorth y Lwfans Gweini (gweler tudalen 30). Gallwch lawrlwytho ffurflen gais neu ddechrau cais ar-lein hefyd ar www.gov.uk/attendance-allowance

**Beth
nesaf?**

Mae ein taflen ffeithiau rhad ac am ddim *Lwfans Gweini* yn cynnwys mwy o wybodaeth. I gael help i wneud cais, cysylltwch â'ch eich cangen Age Cymru leol (gweler tudalen 30). Gweler tudalennau 22-24 i gael awgrymiadau ynghylch beth i'w gynnwys yn eich cais.

Gwneud cais am Lwfans Gweini

Mae'r rhan fwyaf o geisiadau am Lwfans Gweini yn cael eu penderfynu yn gyfan gwbl ar beth rydych chi'n ei roi ar y ffurflen gais, felly peidiwch â thanamcangyfrif eich anghenion. Ystyriwch yr holl bethau nad ydych yn gallu eu gwneud, neu'n cael anhawster eu gwneud, yn sgil eich cyflwr.

- Disgrifiwch unrhyw ddamweiniau neu gwympiadau rydych chi wedi eu cael wrth geisio gwneud pethau.
- Os ydych chi'n cael diwrnodau da a diwrnodau gwael, dylech lenwi'r ffurflen â manylion un o'r diwrnodau gwael, gan gynnwys pa mor aml maen nhw'n digwydd.
- Rhestrwch y pethau rydych chi'n ei chael hi'n anodd eu gwneud heb gymorth, hyd yn oed os ydych chi wedi datblygu ffyrdd arbennig i ymdopi â gweithgareddau penodol.
- Pwysleisiwch beth nad ydych yn gallu ei wneud yn hytrach na beth rydych yn gallu ei wneud. Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn derbyn yr help sydd ei angen arnoch? Rhowch enghreifftiau os yw hyn wedi digwydd yn y gorffennol.
- Canolbwyntiwch ar ba mor aml y mae arnoch angen help. Er mwyn cymhwyso i dderbyn cyfradd is y Lwfans Gweini, rhaid i chi ddangos eich bod angen help yn aml, yn ystod y dydd a gyda'r nos.
- Rhowch ddigon o wybodaeth yn eich geiriau eich hun am eich amgylchiadau personol, hyd yn oed os yw'n ymddangos yn ddibwys neu'n achosi embaras. Peidiwch â phoeni os oes angen i chi ailadrodd eich hun.
- Os oes yna elusen sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i bobl gyda'ch cyflwr neu'ch anabledd chi, yna cysylltwch â nhw, i weld a oes ganddynt unrhyw gyngor penodol ar beth i'w gynnwys ar y ffurflen hawlio

Cofiwch nad yw'r Lwfans Gweini fel arfer yn ystyried problemau gyda gwaith tŷ, coginio, siopa a garddio.

Anghenion gofal cyffredin i'w cynnwys

Dyma rai enghreifftiau o beth i'w ystyried wrth esbonio eich anghenion gofal.

Ymolchi, cael bath a gofalu am eich ymddangosiad

A oes angen help arnoch i fynd i mewn ac allan o'r bath neu gawod; addasu rheolyddion y gawod; eillio; rhoi eli croen; golchi neu sychu eich gwallt?

Mynd i'r toiled

A oes angen help arnoch i addasu eich dillad ar ôl defnyddio'r toiled, er enghraifft, gan eich bod chi'n rhannol ddall; defnyddio'r toiled yn ystod y nos; newid eich dillad neu'r dillad gweld os byddwch yn cael damwain?

Gwisgo neu dynnu dillad

A oes angen help arnoch gyda ffasninau, carrai a botymau, er enghraifft, oherwydd arthritis, neu sylwi pan fo'ch dillad tu mewn tu allan?

Amser bwyd

A oes angen unrhyw help arnoch i fwyta ac yfed? Er enghraifft, os ydych chi wedi colli eich golwg, a oes angen i rywun ddweud wrthyhch ble mae'r bwyd ar eich plât, neu ddarllen bwydlenni?

Help gyda thriniaeth feddygol

A oes angen help arnoch i adnabod eich tabledi; darllen a deall cyfarwyddiadau ynghylch cymryd meddyginiaeth; rheoli cyflwr fel diabetes; adnabod a yw'ch cyflwr yn gwaethygu; addasu eich cymorth clyw?

Cyfathrebu

A oes angen help arnoch i ddeall neu glywed pobl, neu iddyn nhw eich deall chi; ateb y ffôn, ddarllen ac ysgrifennu llythyrau?

Goruchwyliaeth

A oes angen rhywun i'ch gwyltio chi rhag ofn i chi gael trawiad neu lewygu; rhag ofn bod gennych chi ddiffyg ymwybyddiaeth o berygl, neu y gallech fod yn berygl i chi eich hun neu i bobl eraill (er enghraifft, trwy adael y drws heb ei gloi neu adael y nwy i lifo?); neu rhag ofn i chi ddrysu, fod yn anghofus neu ffwndrus? A oes angen rhywun i roi eich meddyginiaeth i chi ar gyfer ymosodiadau angina neu asthma; neu i helpu i'ch tawelu yn ystod pyliau o banig?

Symud o gwmpas yn ddiogel

A oes angen help arnoch i ddefnyddio grisiau; codi o gadair; mynd i mewn ac allan o'r gwely; symud yn ddiogel o un ystafell i un arall?

Beth os caiff fy nghais am Lwfans Gweini ei wrthod?

Os caiff eich cais ei wrthod, gofynnwch i asiantaeth gyngori, fel Age Cymru, a ddylech chi herio'r penderfyniad. Edrychwch ar yr holl anghenion cyffredin sydd wedi eu rhestru uwchben. Ydych chi wedi methu unrhyw un ohonynt?

Cofiwch y gall eich anghenion newid a chynyddu, felly hyd yn oed os nad ydych yn gymwys i dderbyn Lwfans Gweini nawr, efallai y byddwch yn gallu ei hawlio'n llwyddiannus yn y dyfodol.

MYTH

'Alla i ddim hawlio Lwfans Gweini oherwydd does gen i ddim gofalwr.'



REALITI

Mae Lwfans Gweini yn seiliedig ar y cymorth mae arnoch ei angen, nid y cymorth rydych chi'n ei gael.

Lwfans Gofalwr: arian ychwanegol i helpu gyda gofalu

Os ydych yn gofalu am rywun ag anabledd neu broblem iechyd, efallai y gallwch hawlio Lwfans Gofalwr.

Alla' i ei hawlio?

- Mae angen i chi fod yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am unigolyn anabl. Nid yw o bwys a ydych yn byw gyda'r unigolyn ai peidio.
- Rhaid i chi fod yn gofalu am rywun sy'n derbyn Lwfans Gweini, rhan gofalu Lwfans Byw i'r Anabl (ar y gyfradd uwch neu ganolig), rhan byw bob dydd y Taliad Annibyniaeth Bersonol (ar y naill gyfradd), Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog Lwfans Gweini Cyson.
- Rhaid i chi beidio â bod mewn addysg amser llawn nac yn ennill mwy na £120 yr wythnos.

Mae Lwfans Gofalwr yn £66.15 yr wythnos.

Os yw'ch Pensiwn y Wladwriaeth yn fwy na £66.15 yr wythnos, ni fyddwch yn derbyn Lwfans Gofalwr. Fodd bynnag, mae'n werth ei hawlio gan y gall eich cais arwain at gynyddu budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd.

Siaradwch â'ch cangen Age Cymru leol cyn hawlio Lwfans Gofalwr, gan y gall leihau'r budd-daliadau y mae'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdano yn eu cael.

Sut galla' i hawlio?

Cysylltwch â'r Uned Lwfans Gofalwr (gweler tudalen 31) i gael ffurflen gais. Neu, gallwch lawrlwytho ffurflen neu wneud cais ar-lein ar www.gov.uk/carers-allowance/how-to-claim

Beth nesaf?

I gael mwy o wybodaeth, gweler ein canllawiau rhad ac am ddim, *Lwfans Gofalwr, Cyngor i Ofalwyr a Gofalu am rywun â dementia*.

Newidiadau i fudd-daliadau yn y dyfodol

Efallai eich bod wedi clywed bod rhai budd-daliadau lles wedi bod yn newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Os ydych dros oed Pensiwn y Wladwriaeth, mae'n annhebygol y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnoch chi, ond efallai y byddan nhw os yw eich partner neu briod y o dan oed Pensiwn y Wladwriaeth.

Terfyn budd-daliadau

Mae'r terfyn budd-daliadau yn gyfyngiad ar faint y gallwch ei dderbyn mewn budd-daliadau, os ydych yn iau nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae hyn yn golygu os yw cyfanswm y budd-daliadau penodol a gewch yn uwch na'r terfyn cap budd-dal, bydd rhywfaint o arian yn cael ei dynnu oddi ar eich Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Bydd y DWP neu eich cyngor lleol yn cysylltu â chi os bydd y cap budd-dal yn effeithio arnoch chi. Mae'r cap budd-dal yn dibynnu ar ble rydych yn byw ac os ydych yn byw ar ben eich hunain neu fel cwpl.

Bydd pobl benodol o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth wedi'u heithrio o'r terfyn budd-daliadau: er enghraifft, os ydyn nhw, neu unrhyw un sy'n byw gyda nhw, yn derbyn budd-dal anabled. Ewch i www.gov.uk/benefit-cap i ddarganfod mwy.

Credyd Cynhwysol

Budd-dal newydd sy'n dibynnu ar brawf modd yw Credyd Cynhwysol. Mae wedi cael ei gyflwyno'n genedlaethol yn raddol. Mae'n seiliedig ar nifer o bethau, fel faint o oriau rydych chi'n gweithio, faint rydych chi'n ei ennill a'ch cynilion.

Mae wedi cymryd lle rhai budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd a delir i bobl o dan oed Pensiwn y Wladwriaeth.

Cyn 15 Mai 2019, os ydych chi'n gwpl oed cymysg, sy'n golygu mai dim ond un ohonoch sydd dros oed Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch ddewis pa un i'w hawlio - naill ai Gredyd Pensiwn neu Gredyd Cynhwysol. I'r mwyafrif o bobl, mae'n well hawlio Credyd Pensiwn gan eich bod chi'n debygol o gael ychydig mwy o arian.

Fodd bynnag, ar ôl 15 Mai 2019, bydd y rheolau'n newid.

Gall cyplau oed cymysg sydd eisoes yn hawlio Credyd Pensiwn aros arno. Ond yn achos rhai sy'n gwneud hawliad newydd ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i'r ddau ohony'n nhw fod wedi cyrraedd oed Pensiwn y Wladwriaeth i hawlio Credyd Pensiwn, felly os nad dyna yw'r achos bydd rhaid iddyn nhw hawlio Credyd Cynhwysol yn ei le.

Beth nesaf?

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau ar gyfer pobl oedran gweithio, gan gynnwys Credyd Cynhwysol, gweler ein taflen ffeithiau, sydd am ddim, ar Fudd-daliadau ar gyfer pobl sy'n iau nag oedran Credit Pensiwn.

'Ar ôl cael cyngor gan Age Cymru, rydw i bellach yn cael Lwfans Gweini, mwy o Fudd-dal Tai a help ychwanegol drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor'.

Chwalu'r myth

Mae rhai pobl yn colli allan ar fudd-daliadau gan eu bod nhw o'r farn, ar gam, nad ydynt yn gymwys, neu fod y broses ymgeisio yn peri iddyn nhw beidio â gwneud cais.

A oes un o'r rhain yn berthnasol i chi?



'Mae fy incwm yn **rhy uchel.**'

Gall y terfyn incwm a chynilion ar rai budd-daliadau fod yn uwch na'r disgwyl, ac nid yw rhai ohonynt, fel Lwfans Gweini, yn ystyried eich incwm o gwbl.



'Rwy'n berchen ar fy nghartref fy hun, felly **ni fyddaf yn cael unrhyw beth.**'

Nid yw bod yn berchen ar eich cartref yn eich eithrio chi. Mae llawer o berchnogion tai hŷn yn gwneud ceisiadau llwyddiannus am Gredyd Pensiwn, er enghraifft.



‘Gallaf wneud yn
iawn hebdo.’

Rydych chi wedi talu i
mewn i'r system dreth trwy
gydol eich oes. Mae nawr yn
amser i chi gael rhywbeth yn ôl.
Ystyriwch pa gymorth ac offer a
allai eich helpu chi i barhau i fyw'n
annibynnol adref.




‘Mae
gwneud
cais yn rhy
anodd.’

Ar gyfer rhai budd-daliadau,
fel Credyd Pensiwn, un alwad ffôn
yn unig sydd angen i chi ei
gwneud, ac ni fydd angen i chi
llenwi ffurflen. Os oes ffurflen i'w
llenwi, gofynnwch i'ch cangen
Age Cymru leol a allan nhw eich
helpu i'w llenwi.



‘Nid wyf i eisiau
gofalwr i ddod
i'm cartref.’

Nid yw hawlio Lwfans Gweini
yn golygu bod rhaid i chi dalu
am ofalwr. Gallwch wario'r
arian mewn unrhyw ffordd
y dymunwch.



‘Rwyf eisoes wedi
cael gwybod **nad**
wyf yn cymhwyso.’

Mae cyfraddau budd-daliadau
yn newid bob blwyddyn, fel y
gall eich arian, felly gallai bod
yn werth gwneud cais newydd
bob blwyddyn.

Sefydliadau defnyddiol

Age Cymru

Rydym yn darparu gwybodaeth a chynghor i bobl yn ddiweddarach mewn bywyd drwy ein llinell gyngor ddwyieithog, cyhoeddiadau ac ar-lein. I gael gwybod a oes partneriad Age Cymru lleol yn eich ardal chi ac i archebu copïau am ddim o'n canllawiau gwybodaeth a thafleuni ffeithiau, ffoniwch:

Cyngor Age Cymru 08000 223 444 (9am tan 5pm, Llun - Gwener) neu anfonwch e-bost i: advice@agecymru.org.uk

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy lythyr:

Age Cymru, Llawr Daeor, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD.

Gwefan: www.agecymru.org.uk/advice

Yn Lloegr, cysylltwch ag

Age UK: 0800 169 65 65

www.ageuk.org.uk

Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch ag

Age NI: 0808 808 7575

www.ageni.org

Yn yr Alban, cysylltwch ag

Age Scotland: 0800 124 4222

www.agescotland.org.uk

Llinell gymorth Lwfans Gweini

Mae'n anfon pecynnau cais ar gyfer Lwfans Gweini.

Ffôn: 0800 731 0122

Ffôn testun: 0800 731 0317

www.gov.uk/attendance-allowance

Gofal a Thrwsio Cymru

Mae'n gweithio i sicrhau bod gan bob unigolyn hŷn gartref sy'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer eu hanghenion.

Ffôn: 0300 111 3333

www.cymru.careandrepair.org.uk

Uned Lwfans Gofalwr

Mae'n darparu gwybodaeth ynghylch Lwfans Gofalwr, gan gynnwys cymhwysterau a sut i wneud cais.

Ffôn: 0800 731 0297

Ffôn testun: 0800 731 0317

www.gov.uk/carers-allowance-unit

Gofalwyr Cymru

Mae'n darparu cymorth a chyngor i ofalwyr, gan gynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau.

Ffôn: 0808 808 7777

www.carersuk.org/wales

Cyngor ar Bopeth

Canolfannau cyngori sy'n cynnig cyngor rhad ac am ddim, cyfrinachol ac annibynnol, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

Ffôn: 03444 77 20 20

I ddod o hyd i fanylion am eich canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf, ewch i www.citizensadvice.org.uk/cymraeg

Cronfa Cymorth Dewisol

I wneud cais am Daliad Cymorth mewn Argyfwng neu am Daliad Cymorth Unigol cysylltwch â:

Ffôn: 0800 859 5924 (rhad ac am ddim o linell dir)

www.beta.gov.wales/discretionary-assistance-fund-daf

Gov.uk

Hon yw gwefan swyddogol Llywodraeth y DU, sy'n darparu gwybodaeth ar wasanaethau cyhoeddus, fel budd-daliadau, swyddi a phensiynau.

www.gov.uk/cymraeg

Y Ganolfan Byd Gwaith

Gall ddarparu gwybodaeth am Daliadau Angladd, Benthyciadau Cyllidebu a Blaensymiau Tymor Byr.

Ffôn: 0800 055 6688

Ffôn testun: 0345 608 8551

www.gov.uk/cysylltu-canol-fan-byd-gwaith

GIG Cymru

Mae'n darparu gwybodaeth am gyflyrau iechyd, triniaethau a gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.

www.wales.nhs.uk/cym

Galw Iechyd Cymru: 0845 46 47

Y Gwasanaeth Pensiwn

Mae'n rhoi mwy o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, Credyd Pensiwn a sut i wneud cais.

Llinell hawlio Pensiwn y Wladwriaeth: 0800 731 7898

Ffôn testun: 0800 731 7339

Llinell gymorth Credyd Pensiwn: 0800 99 1234

Ffôn testun: 0800 169 0133

www.gov.uk/contact-pension-service

Y Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf

Mae'n rhoi gwybodaeth a ffurflenni cais i hawlio'r taliad.

Ffôn: 0800 731 0160

Ffôn testun: 0800 731 0464

www.gov.uk/winter-fuel-payment



‘Roeddwn yn gohirio hawlio budd-daliadau gan yr oedd y ffurflenni’n rhy gymhleth. Fe ddaeth cynghorydd Age Cymru i’n tŷ a’r helpu i’w llenwi. Rwyf bellach yn cael £58 ychwanegol yr wythnos a help gyda chostau tŷ.’

Allwch chi helpu Age Cymru?

A wneuch chi lenwi'r ffurflen roddi hon gyda rhodd o beth bynnag y gallwch fforddio ei roi, a'i dychwelyd i: Age Cymru, RHADBOST RLTL-KJTR-BYTT, Llawr Daear, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD. Fel arall, gallwch ffonio 029 2043 1555, dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm, neu ewch i www.agecymru.org.uk/donate. Diolch.

Manylion personol

Teitl:	Llythrennau cyntaf:	Cyfenw:
Cyfeiriad:		
Cod post:		
Ffôn:	E-bost:	

Trwy roi eich cyfeiriad e-bost a/neu eich rhif ffôn symudol, rydych yn cytuno i ni gysylltu â chi yn y dulliau hyn. Gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg i ddatdanysgrifio o'n cyfathrebiadau.

Eich rhodd

Hoffwn roi rhodd o: £

Amgaeaf siec/archeb bost, yn daladwy i Age Cymru

Taliad â cherdyn

Dymunaf dalu trwy (ticiwch) MasterCard Visa CAF CharityCard
 Maestro American Express

(Maestro yn unig)

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	Llofnod X
Dyddiad dod i ben										/	Rhif dyroddi (Maestro yn unig)

Datganiad cymorth rhodd

(ticiwch) Ydw, rydw i eisiau i Age Cymru drin yr holl roddion yr wyf wedi'u rhoi dros y pedair blynedd cyn y flwyddyn hon, a phob rhodd y byddaf yn ei rhoi o ddyddiad y datganiad hwn, hyd nes i mi eich hysbysu fel arall, fel rhoddion Cymorth Rhodd. Cadarnhaf fy mod yn talu swm o dreth incwm/treth ar enillion cyfalaf, a fydd yn talu am faint fydd pob elusen a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol yn eu hadhawlio ar fy rhoddion yn y flwyddyn dreth. Dyddiad: ___/___/___ Rwy'n deall nad yw trethi eraill, fel TAW a'r Dreth Gyngor, yn gymwys.



Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig rhif 1128436. Mae'n gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig: Llawr Daear, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid Age Cymru lleol i ddarparu help uniongyrchol i dros filiwn o bobl bob blwyddyn. © Age Cymru 2019

Cefnogi gwaith Age Cymru

Rydym yn darparu gwasanaethau, cymorth, gwybodaeth a chyngor hanfodol i filoedd o bobl hŷn ledled Cymru.

Er mwyn cynnig canllawiau gwybodaeth rhad ac am ddim, fel y rhain, mae Age Cymru'n dibynnu ar haelioni ei gefnogwyr. Os hoffech ein helpu ni, dyma rai ffyrdd y gallech gymryd rhan:

1

Rhoi rhodd

I roi rhodd i Age Cymru, llenwch y ffurflen rod-di atodedig, ein ffonio ni ar **029 2043 1555** neu ewch i www.agecymru.org.uk/donate

2

Rhoddi eitemau i'n siopau

Trwy rod-di eitem ddieisiau i un o'n siopau, gallwch helpu i gynhyrchu arian hanfodol i gefnogi ein gwaith. I ddod o hyd i'ch siop Age Cymru agosaf, ewch i www.agecymru.org.uk/shop a rhoi eich cod post yn y nodwedd chwilio 'Beth mae Age Cymru yn ei wneud yn eich ardal chi?'. Fel arall, ffoniwch **029 2043 1555**

3

Gadael rhodd yn eich ewyllys

Mae'r arian rydym yn ei dderbyn o roddion sy'n cael eu gadael mewn ewyllysiau yn hanfodol i ni barhau â'n gwaith. I ddarganfod mwy ynghylch sut gallech helpu yn y modd hwn, ffoniwch dîm etifeddiaeth Age Cymru ar **029 2043 1555** neu anfonwch neges e-bost at legacy@agecymru.org.uk

Diolch!

Beth ddylwn i ei wneud nawr?

I gael mwy o wybodaeth am y materion yr eir i'r afael â nhw yn y canllaw hwn, neu i archebu ein cyhoeddiadau, ffoniwch ni'n rhad ac am ddim ar **08000 223 444** neu ewch i www.agecymru.org.uk/letstalkmoney

Gall y canllawiau gwybodaeth canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Lwfans Gweini
- Lwfans Gofalwr
- Credyd Pensiwn

Rydym yn cynnig ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer pobl yn hwyrach mewn bywyd. I gael mwy o wybodaeth, ffoniwch **0800 085 37 41**.

Os nad yw manylion cyswllt eich cangen Age Cymru leol yn y blwch isod, ffoniwch **08000 223 444** yn rhad ac am ddim.

